# Darlunio tirlun cyflym

**Gan ddefnyddio ffenestr fel gwrthrych, ewch ati i arbrofi gyda marciau, a chreu darluniau tirlun gwanwyn cyflym 2 munud.**



Street in Spring gan Edward Morland Lewis
© Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

## Bydd Angen:

- Ffenestr!
- Darnau o bapur neu gerdyn. Does dim angen defnyddio papur plaen gwyn. Weithiau, mae hi'n hawsach i ddarlunio yn fwy creadigol a rhydd gan weithio ar ddarn o bapur patrymog neu lliw.
- Arbrofwch gyda'r ddamcaniaeth yma!
- Carden weledol
- Deunyddiau i greu marciau. Fe ddefnyddion ni pen ffelt brown.

## Cyfarwyddiadau:

1. Crëwch garden weledol. Bydd angen plygu plyg  lawr canol darn o bapur neu garden, wedyn torri mas sgwâr o'r canol (unrhyw faint).
2. Dodwch y garden weledol yn erbyn eich ffenestr. Symudwch hi o gwmpas, nes i chi ffeindio golygfa ddiddorol.



3. Beth allech chi ei weld tu fas? Beth ydych chi'n sylwi? Sut mae'r olygfa yn wneud i chi deimlo?

# Darlunio tirlun cyflym

## Ymarfer Un

Crëwch farciau i ddehongli'r olygfa o fewn eich carden weledol.
Mae gyda chi 2 funed i'w gwblhau.



## Ymarfer Dau

Ailadroddwch ymarfer un, ond y tro yma, defnyddiwch eich llaw anarferol.



## Ymarfer Tri

Arbrofwch gyda cymryd risg creadigol.

Darluniwch yr olygfa eto, ond cadwch eich llygaid ar gau

Sut wnaeth yr ymarferion effeithio eich profiad darlunio?
Er enghraifft, wnaethoch chi ganolbwyntio mwy ar y proses na'r gwaith gorffenedig?

Ewch un cam ymhellach a chrëwch ymarferion marcio eich hunan.

Mwynhewch!

Beth am anfon llun i ni ar Twitter?

@Amgueddfa_Learn